

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Comisiwn y Cynulliad

### Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

#### Ebrill 2012 – Mawrth 2013

#### Geirfa

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – mae'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad sydd wedi eu hethol i gynrychioli pobl Cymru, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Aelodau'r Cynulliad** – gwleidyddion wedi eu hethol sy'n ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r 60 o Aelodau yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru.

**Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Comisiwn y Cynulliad)** - y corff sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad. Y Llywydd sy'n cadeirio'r Comisiwn, sydd hefyd yn cynnwys pedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. Mae gan y Comisiwn gyfrifoldebau fel cyflogwr ac fel sefydliad sy'n cefnogi Aelodau'r Cynulliad ac sy'n rhyngweithio â'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau a gynigir gan y Comisiwn i'r cyhoedd yn cynnwys croesawu ymwelwyr i ystâd y Cynulliad, darparu gwybodaeth i bobl, i ysgolion a grwpiau cymunedol sy'n ymweld â ni o Gymru benbaladr.

**Y Llywydd** – yr Aelod Cynulliad a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol i gadeirio dadleuon yn y Cyfarfod Llawn a chynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

**Busnes y Cynulliad** – y gwaith a wneir gan Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys yn nadleuon y Cyfarfodydd Llawn, mewn pwyllgorau ac yng nghyswllt eu hetholaeth.



Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol cyntaf ar sail ein Cynllun Cydraddoldeb 2012-2016. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y cynnydd a wnaed o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, sef ymgysylltu â phobl Cymru, cefnogi ein staff, cefnogi Aelodau'r Cynulliad a sicrhau bod cydraddoldeb yn ganolog ym mhopeth a wnawn.

Mae'r uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Parhau i hyrwyddo cydraddoldeb ymysg Aelodau'r Cynulliad, ein staff a'r cyhoedd drwy fwletinau ac erthyglau blog ar gydraddoldeb, defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol, a chynnal nifer o ddigwyddiadau mewn cysylltiad â'r Wythnos Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Croesawu amrywiaeth eang o ymwelwyr i'n hystâd ar gyfer teithiau, digwyddiadau ac arddangosfeydd amrywiol;
- Cynnal archwiliad mynediad er mwyn gwella hygyrchedd ein hystâd;
- Gwneud addasiadau rhesymol fel sy'n ofynnol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ein staff ac ymwelwyr;
- Ymgysylltu â phobl ledled Cymru mewn cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymgynghoriadau, er mwyn casglu eu safbwyntiau ar gyfer datblygu Busnes y Cynulliad;
- Datblygu polisïau i gefnogi anghenion Aelodau'r Cynulliad, ein staff ac ymwelwyr;
- Sefydlu rhwydweithiau cefnogi staff i gynorthwyo ein staff ac i gynorthwyo i ddatblygu ein polisïau. Yn 2012, lanswyd ein rhwydweithiau ar gyfer menywod a staff o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig;
- Cynnal arolygon staff rheolaidd;
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol i'r holl staff;
- Cynyddu'n ddramatig swm y data monitro cydraddoldeb ar gyfer staff;
- Cael cydnabyddiaeth allanol am fod yn gyflogwr da – drwy ennill gwobr Safon Aur fel Buddsoddwr mewn Pobl; Un o gan cyflogwr gorau Stonewall; Un o'r Deg Uchaf fel cyflogwr mwyaf cyfeillgar i deuluoedd, a Siarter 'Yn Uwch na Geiriau' Action on Hearing Loss;
- Cynnal cynllun prentisiaeth; a
- Chynnal cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol a chynhadledd genedlaethol i edrych yn fanwl pam nad oes gan fenywod gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd cyhoeddus.

Rydym wedi cynnwys pedwar atodiad yn yr Adroddiad, sy'n nodi manylion ein hamcanion diweddaraf, yn ogystal â gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â'n gweithlu, recriwtio a gwybodaeth ynghylch cyflogau cyfartal.

Gwnawn ein gorau glas i fod yn sefydliad sydd â chydraddoldeb yn ganolog i'w waith, a byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i osod patrwm enghreifftiol fel sefydliad seneddol, cyflogwr a darparwr gwasanaethau i'r cyhoedd.



Os oes angen copi o'r adroddiad hwn arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r tîm Cydraddoldeb a Mynediad:

**Y tîm Cydraddoldeb a Mynediad**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1NA**

- E-bost: [Equalities.Team@wales.gov.uk](mailto:Equalities.Team@wales.gov.uk)
- Ffôn: 029 2089 8650
- Ffôn testun: 029 2089 8601

Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfnewid testun.

I ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, dylech alw'r rhif a ganlyn: 18001 0845 010 5500.

